# Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych ar gyfer 2025/2026

Prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU sy'n cefnogi disgyblion ôl-16 Sir Ddinbych sy'n economaidd anweithgar a Chyfnod Allweddol 4 i ennill sgiliau a'u galluogi i gael gwaith.

# Nodiadau Cyfarwyddyd

*25 Mehefin 2025*

# Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych ar gyfer 2025/2026

## Nodiadau Cyfarwyddyd

**CYNNWYS**

Contents


**1. Beth yw Pobl a Sgiliau** ........ 3
**2. Beth yw'r Gronfa Allweddol Pobl a Sgiliau (PSKF)** ........ 3
**3. Briff Cryno ar gyfer Prosiectau PSKF** ........ 4
**4. Sut i gael Cyngor ac Ymgeisio** ........ 5
**5. Pwy All Wneud Cais** ........ 6
**6. Beth fydd ei angen arnoch i Wneud Cais** ........ 7
**7. Cydraddoldeb, y Gymraeg a Sero Net** ........ 7
**8. Pa gostau a ellir eu hariannu?** ........ 8
**9. Cyfradd a Gwerth Grant** ........ 9
**10. Sut i wneud cais** ........ 9
Atodiad A – Tystiolaeth Angenrheidiol ........ 11
Atodiad B - Gwariant Anghymwys ........ 14
Atodiad C – Cydymffurfiaeth Ariannol ........ 15

## 1. Beth yw Pobl a Sgiliau

Mae Pobl a Sgiliau yn un o 3 prif flaenoriaeth Cronfeydd Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) wedi'u rhannu'n themâu Cyflogadwyedd a Sgiliau ac is-themâu manylach, fel y dangosir yn y sgematig isod.

*Ffigur 1 Themâu ac Is-themâu Allweddol UKSPF*




***Ffynhonnell Paragraff 6:*** ***UK Shared Prosperity Fund 2025-26: Technical note - GOV.UK***

## 2. Beth yw'r Gronfa Allweddol Pobl a Sgiliau

Mae Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) wedi clustnodi £384,500.00 o'i gyllid UKSPF 2025, i weithredu Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau (PSKF). Bydd y PSKF hwn yn darparu ffynhonnell ariannu i ddenu a sicrhau prosiectau lleol a fydd yn cyd-fynd ac yn cyflawni'r flaenoriaeth hon.

O safbwynt CSDd, mae'r Gronfa Allweddol yn cyd-fynd â'i nod i gefnogi darparu cymorth cyflogadwyedd o safon (gweler *Ffigur 1*). Mae'r Gronfa Allweddol wedi'i chynllunio'n fwriadol i gefnogi **trigolion Sir Ddinbych nad ydynt yn economiadd weithredol a hefyd disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn ysgolion uwchradd Sir Ddinbych**, i'w helpu i ennill y sgiliau angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i gael cyflogaeth a chyflawni eu potensial, yn bersonol ac yn broffesiynol.

*Ffigwr 2 Blaenoriaeth Strategol 2 CSDd y manylir arni yn Strategaeth Economaidd a Chynllun Gweithredu Sir Ddinbych 2025-2035*

> ***Blaenoriaeth Strategol 2** : Medrus a Mentrus: Er mwyn darparu Sir Ddinbych fwy llewyrchus, mae'n rhaid i ni wella ein sylfaen sgiliau fel y gall pobl leol gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth a grëir gan ein busnesau. Rhaid inni hefyd hybu lefelau*

*entrepreneuriaeth ar draws y Sir ac annog ein trigolion i ddechrau a thyfu eu busnesau eu hunain yma.*

## 3. Briff Cryno ar gyfer Prosiectau PSKF

Bydd y PSKF yn darparu cymorth ar gyfer prosiectau cymeradwy sy'n cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau Pobl a Sgiliau, Allbynnau a Chanlyniadau sydd o fewn y UKSPF_Indicators_25-26_.xlsx. Dangosir y rhain isod.

*Ffigwr 2 Blaenoriaeth PSKF*

| Blaenoriaeth | Thema | Is-themâu |
|---|---|---|
| Pobl a Sgiliau | Cyflogadwyedd | Cefnogi pobl i symud ymlaen i gyflogaeth ac i mewn i gyflogaeth |
| | | Cefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET |
| | Sgiliau | Sgiliau cysylltiedig â chyflogaeth |

*Ffigwr 3 Allbynnau PSKF*

| Cod Allbwn | Dangosydd Allbwn ar gyfer Adrodd | Uned Fesur | Diffiniad |
|---|---|---|---|
| OP12 | Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogir | Nifer o ddigwyddiadau/ gweithgareddau | Manylion digwyddiadau a gweithgareddau a gefnogwyd; dyddiad, lleoliad, enw digwyddiad/gweithgaredd a disgrifiad. |
| OP14 | Nifer y bobl economaidd anweithgar sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth gweithwyr allweddol | Nifer y bobl | Cyfenw, Rhan gyntaf y cod post; Enw'r gwasanaeth. |
| OP17 | Nifer y bobl a gyrhaeddwyd | Nifer y bobl | Cyfenw; Rhan gyntaf y cod post; dull a mesur a ddefnyddir i gyrraedd pobl.<br>**DS. NI ALL Y BOBL SYDD WEDI EU CYRRAEDD (Buddiolwyr) FOD YR UN A'R RHAI A GEFNOGWYD Y LLYNEDD –** |

| Cod Allbwn | Dangosydd Allbwn ar gyfer Adrodd | Uned Fesur | Diffiniad |
|---|---|---|---|
| | | | **RHAID EI FOD YN NEWYDD I PSKF.** |
| Gweler ***Error! Reference source not found.*** am fanylion y dystiolaeth y bydd ei hangen o'ch prosiect. | | | |

*Ffigwr 4 Canlyniadau PSKF*

| Cod Canlyniad | Dangosydd Canlyniad ar gyfer Adrodd | Uned Fesur | Diffiniad |
|---|---|---|---|
| OC19 | Nifer y rhaglenni celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol a arweinir gan y gymuned o ganlyniad i gefnogaeth | Nifer y rhaglenni | Lleoliad (gan gynnwys cod post); Enw'r digwyddiad; Disgrifiad o'r Digwyddiad; Math o chwaraeon a ddarperir |
| OC26 | Nifer y bobl sy'n adrodd am fwy o gyflogadwyedd drwy ddatblygu sgiliau rhyngbersonol a ariennir gan UKSPF | Nifer y bobl | Nifer y bobl sydd wedi'u cefnogi gan weithgarwch a ariennir gan UKSPF sydd wedi adrodd am fwy o gyflogadwyedd drwy gaffael neu wella sgiliau rhyngbersonol sy'n berthnasol i leoliadau cyflogaeth a sgiliau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i hyder, sgiliau cyfathrebu, gweithio gydag eraill, rheoli amser, cymhelliant i weithio neu wneud hyfforddiant. |
| Gweler ***Error! Reference source not found.*** am fanylion y dystiolaeth y bydd ei hangen o'ch prosiect. | | | |

## 4. Sut i gael Cyngor ac Ymgeisio

Y pwynt cyswllt cyntaf i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwneud cais am y Gronfa Allweddol hon yw siarad â Swyddog Prosiect Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau.

Ebost: dawn.johnson@cadwynclwyd.co.uk

Ffôn: 07931 305 756 / 01490 340500

Bydd y Swyddog Prosiect yn gallu:

- Darparu gwybodaeth am y Gronfa Allweddol
- Ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych
- Gwirio eich cymhwyster
- Trafod eich syniad am brosiect
- Eich cynorthwyo i gwblhau cais
- Darparu cefnogaeth trwy gydol cylch bywyd eich prosiect

## 5. Pwy all Ymgeisio

Gall y mathau canlynol o sefydliad wneud cais am arian, fodd bynnag, **rhaid i bob ymgeisydd fod** â hanes o weithredu yn Sir Ddinbych

- Sefydliad gwirfoddol neu gymunedol cyfansoddiadol
- Elusennau cofrestredig
- Grwpiau neu glybiau cyfansoddiadol
- Cwmnïau di-elw neu Gwmnïau Buddiant Cymunedol (mentrau cymdeithasol)
- Ysgolion (cyhyd â bod eich prosiect yn cynnwys y gymuned leol ac o fudd iddo)
- Corff statudol (gan gynnwys cynghorau tref, plwyf a chymuned)
- Cyrff sector cyhoeddus

Yn gyffredinol, ni fyddem yn disgwyl i ymgeiswyr presennol i SPF Sir Ddinbych wneud cais i'r Gronfa Allweddol hon, fodd bynnag, pe bai unrhyw ymgeiswyr presennol o'r fath yn dymuno cael eu hystyried bydd angen iddynt wneud achos cryf iawn dros werth ychwanegol ac ychwanegedd yn eu cais am arian o'r Gronfa Allweddol hon.

Gall consortiwm o sefydliadau wneud ceisiadau. Petaent yn dymuno ymgeisio fel consortiwm, bydd angen nodi partner arweiniol ar ffurflen gynnig/cais y prosiect.

Ni all unigolion gynnig prosiectau i'r Gronfa Allweddol.

Ni all busnesau masnachol gynnig prosiectau i'r Gronfa Allweddol ond gall ymgeiswyr cymwys gaffael busnesau masnachol i gyflawni un neu fwy o elfennau eu prosiectau.

Gall y Gronfa Allweddol gefnogi prosiectau sy'n ategu ac yn ychwanegol at y cymorth a'r ymyriadau presennol sy'n rhan o Sir Ddinbych yn Gweithio (Working Denbighshire | Denbighshire County Council). Dylai ymgeiswyr am brosiectau Cronfa Allweddol hefyd sicrhau nad yw eu prosiectau arfaethedig yn cael eu cyflawni drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth Cymru neu unrhyw ddarpariaeth prif ffrwd arall.

**ARGYMHELLIR YN GRYF FOD DARPAR YMGEISWYR AR GYFER Y GRONFA ALLWEDDOL ADOLYGU'R WYBODAETH AR Y CYSYLLTIADAU UCHOD, A LLE BO'N BRIODOL, YMGYSYLLTU Â'R PROSIECT PERTHNASOL AT SICRHAU NAD YW EU PROSIECT ARFAETHEDIG YN DYBLYGU'R DDARPARIAETH BRESENNOL.**

## 6. Beth fydd ei angen arnoch i Wneud Cais

Mae'n rhaid i bob sefydliad sy'n ymgeisio feddu ar dystiolaeth o'r canlynol fel rhan o'r broses ymgeisio, a bydd gofyn iddynt wneud hynny:

- Cyfansoddiad
- Strwythur Sefydliadol Diweddar
- Polisi Cyfle Cyfartal
- Polisi Iaith Gymraeg
- 3 mis blaenorol o gyfriflenni banc yn enw eich Sefydliad
- Eich set ddiwethaf o Gyfrifon sydd ar gael
- gweithdrefnau ariannol a chyflawni cadarn i gyflawni mewn modd sy'n cydymffurfio â gofynion UKSPF . Gwel Atodiad C – Cydymffurfiaeth Ariannol am fanylion am hyn.

## 7. Cydraddoldeb, y Gymraeg a Sero Net

Dylai pob prosiect sy'n derbyn cymorth gan y Gronfa Allweddol ddangos sut maen nhw'n cyflawni gwaith sy'n berthnasol i'r meysydd polisi allweddol canlynol:

**Cydraddoldeb** – Fe ddylai bod eich prosiect yn sicrhau bod dull rhagweithiol ar waith er mwyn cynnig cymaint o gyfleoedd â phosibl o ran cyfraniad y prosiect tuag at bob un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Dylai bod effeithiau dichonol gweithrediadau'r prosiect ar y grwpiau nodweddion gwarchodedig yn ystyriaeth allweddol. Dylai ymgeiswyr y gronfa allweddol ystyried a gweithredu, lle'n briodol, teilwra gweithrediadau sydd wedi'u hariannu gan y prosiect i fodloni anghenion mynediad y grwpiau nodweddion gwarchodedig; datblygu prosesau monitro sy'n ymwneud ag asesiad cydraddoldeb penodol; ymwneud yn weithredol gyda mudiadau a grwpiau cydraddoldeb sy'n cynrychioli'r rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig i sicrhau bod y grwpiau hynny'n manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad y prosiect.

**Y Gymraeg** – Bydd yn rhaid i Ymgeiswyr y Prosiect sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ynghlwm â'u holl weithgareddau a chaiff y Gymraeg ei hyrwyddo a'i hwyluso'n rhagweithiol yng nghyd-destun holl weithgarwch y prosiect. Mae gofyn i'r holl waith cyfathrebu gyda'r cyhoedd a buddiolwyr y prosiect sydd wedi'i ariannu gan y prosiect fod yn ddwyieithog e.e. gwefannau sydd wedi'u hariannu gan y prosiect, cyfryngau

cymdeithasol, taflenni ac ati. Caiff ymgeiswyr eu hannog i fanteisio ar gymorth megis Helo Blod, Menter Iaith ac asiantaethau a gwasanaethau perthnasol eraill.

**Sero Net –** Dylai ymgeiswyr y Gronfa Allweddol ddwyn i ystyriaeth ffocws Llywodraeth Cymru a'r Du ar gyfrannu tuag at amcanion sero net a'r ystyriaethau amgylcheddol ehangach. Bydd gofyn i'r Ymgeiswyr ddwyn i ystyriaeth sut gall eu prosiectau nhw gydweithio gyda'r amgylchedd naturiol i gyflawni amcanion eu prosiect, ac o leiaf, ystyried effaith y prosiect ar ein hasedau naturiol a'r byd natur.
https://www.gov.wales/welsh-government-net-zero-strategic-plan
https://www.gov.uk/government/publications/net-zero-strategy

## 8. 5. Pa gostau a ellir eu hariannu?

Bydd y Gronfa Allweddol yn cefnogi costau refeniw fel y canlynol:

- costau hyfforddi (gan gynnwys costau hyfforddwyr BSL)
- digwyddiadau unwaith ac am byth
- costau ymgynghori sy'n ymwneud h.y. contractwyr a gomisiynir i ddarparu gwasanaeth i chi a'ch anfonebu am y gwasanaeth hwnnw.
- costau staff sy'n gysylltiedig â'r prosiect h.y.**ar gyfer y staff hynny sydd â chontract cyflogaeth cyfredol gyda chi ac sy'n cael eu talu o dan TWE**, Cyflogwyr YG, Pensiwn Cyflogwyr a chost cyflog crynswth
- costau cyfathrebu sy'n ymwneud â'r prosiect
- costau cludiant yn ymwneud â'r prosiect
- costau rhedeg yn ymwneud â'r prosiect
- treuliau gwirfoddolwyr
- costau ar gyfer cyflwyno eich prosiect yn ddwyieithog megis costau cyfieithu a chostau hyfforddwyr dwyieithog

### Cynhwysir rhestr o gostau anghymwys Atodiad B - Gwariant Anghymwys

## 9. Cyfradd a Gwerth Grant

Gall y Gronfa Allweddol gefnogi hyd at 100% o gostau cymwys. O ystyried yr amserlen gymharol fyr ar gyfer cyflawni'r UKSPF hwn, mae arian cyfatebol yn ddewisol ac nid yw'n orfodol. Bydd y Gronfa Allweddol yn cynnwys cymaint o hyblygrwydd â phosibl o ran gwerth y grant y gofynnir amdano, ond rhaid nodi bod yn rhaid i'r ceisiadau fod yn:

- ✓ rhesymol mewn perthynas â'r amserlen gyflenwi;
- ✓ yn gymesur â'r allbynnau a'r canlyniadau i'w cyflawni a
- ✓ realistig o ran lefel y cymorth sydd ei angen ar y buddiolwyr yn y pen draw .

## 10. Sut i wneud cais

I gychwyn eich cais cwblhewch **Ffurflen Gais** ar-lein ar Borth Cadwyn Clwyd trwy glicio ar y ddolen hon Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau.

**Amserlenni**
Mae dyddiadau'r Gronfa Allweddol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dyddiad Agored ar gyfer Ceisiadau | **Dydd Mawrth 27/05/2025** |
| Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau | **Dydd Gwener 10/07/2025** |
| Cyflwyno Prosiect yn dechrau o | **Dydd Llun 21/07/2025** |
| Cyflawni'r Prosiect erbyn | **Dydd Gwener 27/02/2026** |
| Digwyddiad Hawlio Grant Cychwynnol | **Dewisol 30% ar Gychwyn Prosiect** |
| Digwyddiadau Hawlio Grant Dros Dro | **Diwedd Awst 2025[1]**<br>**Diwedd Hydref 2025**<br>**Diwedd Rhagfyr 2025** |
| Hawliad Grant Terfynol i'w gyflwyno gan | **Dydd Gwener 27/02/2026[2]** |

[1] Gall costau ôl-ddyddiedig ar gyfer eich Prosiect, yn mynd yn ôl i 01/04/2025 gael eu had-dalu ond bydd angen trafod hyn a chytuno arno gyda'r Swyddog Prosiect cyn hawlio..

[2] Mae'n rhaid i bob prosiect fod wedi cyflawni, gyda'r holl hawliadau grant ar gyfer costau yn cael eu cyflwyno i Cadwyn Clwyd erbyn **DYDD GWENER 27 CHWEFROR 2026** fan bellaf. Gall ymgeiswyr fynd i gostau ôl-weithredol a gwneud cais o'r Gronfa Allweddol ar ôl y dyddiad cau, fodd bynnag bydd hyn ar eu menter eu hunain.

**Datganiad Preifatrwydd Cadwyn Clwyd**
Mae Cadwyn Clwyd yn trin preifatrwydd data o ddifrif ac yn cydymffurfio â phob agwedd ar fframwaith deddfwriaethol diogelu data'r DU.  Gallwch weld ein polisi preifatrwydd yma http://cadwynclwyd.co.uk/wp-content/uploads/Cadwyn-Clwyd-Privacy-Policy.pdf

# Atodiad A – Tystiolaeth Angenrheidiol

## Allbwn OP12

Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych ar gyfer 2025/2026

Tystiolaeth ar gyfer OP12 - Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogwyd

Enw Sefydliad:

Enw'r Prosiect:

| | Dyddiad | Enw'r Digwyddiad | Lleoliad | Rhestr o Weithgareddau Wedi'i wneud | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | |
| 2 | | | | | |
| 3 | | | | | |
| 4 | | | | | |
| 5 | | | | | |
| 6 | | | | | |
| 7 | | | | | |
| 8 | | | | | |
| 9 | | | | | |
| 10 | | | | | |
| 11 | | | | | |
| 12 | | | | | |
| 13 | | | | | |
| 14 | | | | | |
| 15 | | | | | |
| Etc. | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | |

## Allbwn OP14

Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych ar gyfer 2025/2026

Tystiolaeth ar gyfer OP14 Nifer y bobl economaidd anweithgar sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth gweithwyr allweddol

Enw Sefydliad:

Enw'r Prosiect:

| | | Cyfenw | Rhan Gyntaf y Côd Post | Enw'r Digwyddiad/Gweithgaredd/Gwasanaeth | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | |
| 2 | | | | | |
| 3 | | | | | |
| 4 | | | | | |
| 5 | | | | | |
| 6 | | | | | |
| 7 | | | | | |
| 8 | | | | | |
| 9 | | | | | |
| 10 | | | | | |
| 11 | | | | | |
| 12 | | | | | |
| 13 | | | | | |
| 14 | | | | | |
| 15 | | | | | |
| Etc. | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | |

Allbwn OP17

Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych ar gyfer 2025/2026
Tystiolaeth ar gyfer OP17 Nifer y bobl a gyrhaeddwyd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Enw Sefydliad: | | | | |
| Enw'r Prosiect: | | | | |
| | **Cyfenw** | **Rhan Gyntaf y Côd Post** | **Dull a ddefnyddir i gyrraedd y person hwn** | **Mesur a ddefnyddir i gyrraedd y person hwn** |
| **1** | | | | |
| **2** | | | | |
| **3** | | | | |
| **4** | | | | |
| **5** | | | | |
| **6** | | | | |
| **7** | | | | |
| **8** | | | | |
| **9** | | | | |
| **10** | | | | |
| **11** | | | | |
| **12** | | | | |
| **13** | | | | |
| **14** | | | | |
| **15** | | | | |
| Etc. | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | |

Canlyniad OC19

Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych ar gyfer 2025/2026
Tystiolaeth ar gyfer OC19 Nifer y rhaglenni celfyddydau, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol a arweinir gan y gymuned o ganlyniad i gefnogaeth

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw Sefydliad: | | | | | |
| Enw'r Prosiect: | | | | | |
| | **Dyddiad** | **Enw'r Digwyddiad** | **Lleoliad** | **Math o Gymorth a Ddarperir** | **Disgrifiad** |
| **1** | | | | | |
| **2** | | | | | |
| **3** | | | | | |
| **4** | | | | | |
| **5** | | | | | |
| **6** | | | | | |
| **7** | | | | | |
| **8** | | | | | |
| **9** | | | | | |
| **10** | | | | | |
| **11** | | | | | |
| **12** | | | | | |
| **13** | | | | | |
| **14** | | | | | |
| **15** | | | | | |
| Etc. | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | |

Canlyniad OC26

Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych ar gyfer 2025/2026
Tystiolaeth ar gyfer OC26 Nifer y bobl sy'n adrodd am fwy o gyflogadwyedd drwy ddatblygu sgiliau rhyngbersonol a ariennir gan UKSPF

Enw Sefydliad:
Enw'r Prosiect:

| | **Cyfenw** | **Rhan Gyntaf y Côd Post** | **Manylion y Cymorth Sgiliau a Dderbyniwyd** |
|---|---|---|---|
| **1** | | | |
| **2** | | | |
| **3** | | | |
| **4** | | | |
| **5** | | | |
| **6** | | | |
| **7** | | | |
| **8** | | | |
| **9** | | | |
| **10** | | | |
| **11** | | | |
| **12** | | | |
| **13** | | | |
| **14** | | | |
| **15** | | | |
| Etc. | | | |
| **Cyfanswm** | | | |

## Atodiad B - Gwariant Anghymwys

Ystyrir bod yr eitemau canlynol yn anghymwys :

- Defnyddio'r Grant i dalu am lobïo, sy'n golygu defnyddio'r Grant i ariannu lobïo (trwy gwmni allanol neu staff mewnol) er mwyn ymgymryd â gweithgareddau y bwriedir iddynt ddylanwadu neu geisio dylanwadu ar weithgarwch Senedd, llywodraeth neu wleidyddol; neu geisio dylanwadu ar gamau deddfwriaethol neu reoleiddiol.
- Defnyddio'r Grant i alluogi un rhan o'r llywodraeth yn uniongyrchol i herio un arall ar bynciau nad ydynt yn gysylltiedig â diben y grant y cytunwyd arno.
- Defnyddio'r Grant i ddeisebu am arian ychwanegol.
- Defnyddio'r Grant i dalu treuliau megis ar gyfer diddanu, wedi'i anelu'n benodol at ddylanwadu'n ormodol i newid polisi'r llywodraeth.
- Defnyddio'r Grant i dalu TAW yn ôl gan CThEM.
- Defnyddio'r Grant i dalu am weithgareddau o natur wleidyddol neu grefyddol yn unig.
- Defnyddio'r Grant i dalu am eitemau sydd heb eu cymeradwyo gan y Panel Sgorio
- Defnyddio'r Grant i dalu am wariant a wnaed gydag arian parod.
- Defnyddio'r Grant i dalu am offer a pheiriannau ar raddfa fawr.
- Defnyddio'r Grant i dalu am stoc neu ddeunyddiau crai

Mae enghreifftiau eraill o wariant a waherddir yn cynnwys y canlynol:

- Prynu gydag arian parod, **oni bai y cytunwyd ymlaen llaw gyda'r Swyddog Prosiect**
- Cyfraniadau mewn nwyddau.
- Taliadau llog neu daliadau tâl gwasanaeth ar gyfer prydlesi cyllid.
- Anrhegion.
- Dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau cosbau sifil, iawndal neu unrhyw gostau cyfreithiol cysylltiedig.
- Taliadau am waith neu weithgareddau y mae gan dderbynnydd y grant, neu unrhyw aelod o'u Partneriaeth ddyletswydd statudol i'w cyflawni, neu sy'n cael eu hariannu'n llawn gan ffynonellau eraill.
- Dyledion drwg i bartïon cysylltiedig.
- Taliadau am ddiswyddo annheg neu iawndal arall.
- Dibrisiant, amorteiddiad neu amhariad ar asedau y mae Derbynnydd y Grant yn berchen arnynt
- Bydd caffael neu wella Asedau gan Dderbynnydd y Grant (oni bai bod y Grant yn benodol at ddefnydd cyfalaf) yn cael ei nodi yn y Llythyr Cyllid Grant) a
- Ymrwymiadau cyn i'r Cytundeb Ariannu Grant gychwyn oni bai y cytunir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod.

## Atodiad C – Cydymffurfiaeth Ariannol

Dyrannu Grant - Bydd ymgeisydd y Gronfa Allweddol yn ymgymryd a chostau prosiect ac yn adennill y symiau y cytunwyd arnynt gan Cadwyn Clwyd gan ddefnyddio Ffurflen Hawlio Grant a ddarparwyd. **Os na all yr ymgeisydd dalu'r swm ymlaen llaw, trafodwch hyn gyda'r swyddog prosiect a gellir ystyried opsiynau eraill.** Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael cynnig opsiwn i dderbyn 30% o'ch grant ymlaen llaw ar Gychwyn y Prosiect, a fydd yn cael ei dalu ar ddiwedd Digwyddiad Hawlio Terfynol mis Chwefror.

Bydd ffurflenni cais yn cael eu darparu i ymgeiswyr grant llwyddiannus unwaith y bydd y prosiect wedi'i gymeradwyo. Bydd angen i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r gofynion canlynol wrth hawlio cyllid gan Cadwyn Clwyd:

**Gofynion tystiolaeth wrth gyflwyno hawliad:**

1. **Copi o Anfoneb(au)/Derbynebau Taledig:** yn dangos 100% o'r costau yr hawlir amdanynt. Rhaid anfon copïau o anfonebau neu dderbynebau i'r sefydliad sy'n gwneud yr hawliad. Rhaid i lungopïau gael eu hardystio gan swyddog perthnasol yn y sefydliad. Bydd angen i swyddog cyllid Cadwyn Clwyd weld y dogfennau/anfonebau gwreiddiol. Bydd anfonebau'n cael eu gwirio i wirio eu bod yn unol â chais y prosiect.
2. **Datganiadau Banc:** i brofi bod y sefydliad sy'n adennill costau gan Cadwyn Clwyd wedi talu'r costau. Rhaid i lungopïau gael eu hardystio gan swyddog perthnasol yn y sefydliad. Rhaid i enw'r sefydliad a rhif y cyfrif a'r cod didoli fod yn weladwy iawn. Mae cyfriflenni ar-lein yn dderbyniol ond os nad yw hyn yn dangos enw'r sefydliad cyflwynwch hefyd un copi o gyfriflen banc fel y gallwn ddangos tystiolaeth o enw'r cyfrif ac ati. Dylai cyfriflen banc gwreiddiol fod ar gael i'w gweld gan swyddog cyllid Cadwyn Clwyd.
3. **Tystiolaeth Caffael:** Tystiolaeth i gefnogi/profi bod y gweithdrefnau caffael wedi'u dilyn yn gywir gan y sefydliad sy'n adennill y costau.
4. **Tystiolaeth o waith a wnaed:** e.e. copi o adroddiad ysgrifenedig, tystysgrifau cyflawniad, tystiolaeth o ddigwyddiadau, datganiadau i'r wasg, astudiaethau achos, cysylltiadau cyhoeddus a gynhaliwyd ac ati.
5. **Adroddiad Cynnydd Ysgrifenedig:** bydd angen i chi gwblhau Adroddiad Cynnydd yn rheolaidd. Rhoddir templed i ymgeiswyr llwyddiannus ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo. Dylid cyflwyno hwn i Cadwyn Clwyd ar gyfnodau prosiect penodol fel y nodir yn eich Llythyr Cymeradwyo.
6. **Allbynnau a Chanlyniadau Tystiolaeth:** bydd angen i chi ddarparu Tystiolaeth Allbynnau. Bydd templed i'w ddefnyddio ar gyfer hyn yn cael ei ddarparu i chi ar ôl cymeradwyo a dylid ei gyflwyno i Cadwyn Clwyd ar gyfnodau prosiect penodol fel y manylir yn eich Llythyr Cymeradwyo.

**Caffael:**
Rhaid i bob prosiect a ariennir ddangos gwerth am arian yn ogystal â chaffaeliad agored a thryloyw o nwyddau a gwasanaethau. Mae'n rhaid i brosiectau gydymffurfio gyda'r gofynion canlynol ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau:

Argymhellir yn gryf eich bod yn ceisio cymorth gan y swyddog prosiect cyn ichi gyflawni unrhyw ymarferion caffael. Os na fyddwch chi'n cyflawni hyn yn gywir, gallai olygu na fyddwch chi'n derbyn y grant.

| Gwerth Terfynol y Nwyddau/Gwasanaethau (heb gynnwys TAW) | Gofynion Caffael[1] *Tystiolaeth wedi'i dogfennu i'w chadw ar ffeil |
|---|---|
| £0 - £2,499 | Un dyfynbris ysgrifenedig[3] |
| £2,500 - £24,999 | Tri dyfynbris ysgrifenedig[1] |
| £25,000+ | Proses Tendro Ffurfiol[1]<br><br>Ar gyfer prosiectau sy'n derbyn mwy na 50% o gyllid SPF / Cyhoeddus, bydd angen iddyn nhw hysbysebu drwy borth www.sell2wales.gov.wales (Bydd cymorth Swyddog Prosiect ar gael os oes angen). |

Os oes un neu fwy o'ch dyfynbrisiau gan blaid sy'n gwrthdaro h.y. aelod o deulu neu fusnes arall y mae gennych ddiddordeb ynddo, mae yna broses ar wahân y bydd angen ichi gydymffurfio â hi er mwyn casglu dyfynbrisiau ac mae'n rhaid ichi gysylltu gyda'r Swyddog Prosiect cyn gofyn am ddyfynbrisiau am arweiniad pellach.

**Rheolau Rheoli Cymhorthdal:**
Rhaid i gyllid grant sy'n gymhorthdal gydymffurfio ag ymrwymiadau Rheoli Cymhorthdal rhyngwladol y DU. Gellir cael rhagor o wybodaeth yma: Guidance on the UK's international subsidy control commitments - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae grantiau a roddir drwy'r cyllid hwn yn cael eu dosbarthu fel Isafswm Cymorth Ariannol (MFA), yn unol â Subsidy Control Act (2022). Rhaid i'r ymgeisydd nodi yn ei ffurflen gais yr holl gymorthdaliadau a dderbyniwyd, gan gynnwys y cynlluniau rhagflaenol megis de minimis y DU; 'Symiau Bach o Eithriad Ariannu' (SAFE); 'Symiau Bach o Gymorth Ariannol' (SAFA); a 'Hawliau Tynnu Arbennig' (SDR), a dderbyniwyd yn ystod eu blwyddyn ariannol gyfredol a dwy flynedd ariannol flaenorol. **Mae Hawliau Tynnu Arbennig yn uned IMF ac mae SDR 325,000 ar hyn o bryd oddeutu £315,000.** Pennir y swm cyfatebol Sterling gan ddefnyddio'r International Monetary Fund SDR convertor. **Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau nad yw cyfanswm y cymorth MFA a ddyfernir i'r fenter yn fwy na chyfanswm uchafswm o £315,000 mewn unrhyw gyfnod cyllidol treigl o dair blynedd.** Bydd angen i ymgeiswyr nodi'n glir yr holl gymorth y maent wedi'i dderbyn o fewn yr amserlen benodedig, er mwyn sicrhau nad ydynt yn torri'r rheolau rheoli cymhorthdal. DS. Mae MFA nid yn unig yn dosbarthu grantiau fel cyllid ond hefyd

[3] Tystiolaeth wedi'i dogfennu i'w chadw ar ffeil.

cymorth megis gwasanaethau ymgynghori rhad ac am ddim neu gymorthdaledig, cyngor marchnata ac ati.

Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ddangos yn ei ffurflen gais pa brosesau sydd ganddynt yn eu lle i fonitro'r arian cyhoeddus a dderbynnir gan y fenter a monitro cymorth yn amodol ar Reolaeth Cymhorthdal.  Rhaid i gofnodion cymorth a dderbyniwyd gael eu cadw gan yr ymgeisydd am 10 mlynedd.  Os caiff y rheolau hyn eu torri, gall yr ymgeisydd ddod yn atebol i dalu gwerth llawn y cymorth a dderbyniwyd a/neu’r pris llawn a fyddai fel arall yn daladwy mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd. Bydd Cadwyn Clwyd hefyd yn cadw cofnod o'r holl ddyfarniadau cyllid.